# Adeiladu strwythurau

## Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn adeiladu strwythurau. Mae'n addas ar gyfer cyflogeion a gwirfoddolwyr sydd yn gweithio yn y sector tir ac amgylcheddol.

Gallai'r strwythurau fod yn barhaol neu'n rhai dros dro a gallent gynnwys llociau, twneli, pontydd, cuddfannau, biniau, planwyr a sgriniau.

Mae'n rhaid i chi wneud eich gwaith mewn ffordd fydd yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd naturiol ac yn gwella ei werth o ran natur, cadwraeth a hamdden.

Wrth baratoi ac adeiladu, efallai fydd yn rhaid i chi ymdrin â digwyddiadau annisgwyl fel niwed damweiniol, neu anhawster yn cydymffurfio â'r manylebau.

Os ydych yn gweithio gyda chemegau neu beiriannau dylech fod wedi cael hyfforddiant ac yn meddu ar yr ardystiad perthnasol yn unol â deddfwriaeth berthnasol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. bod yn ymwybodol o beryglon sydd yn gysylltiedig â'r gweithgaredd
2. asesu'r safle cyn gweithredu i nodi unrhyw gyfyngiadau gyda'r gwaith a gynlluniwyd
3. dewis, paratoi a defnyddio offer a pheiriannau, yn cynnwys offer amddiffynnol personol (PPE) lle bo angen, sy'n bodloni'r manylebau y cytunwyd arnynt
4. dewis deunyddiau sy'n bodloni'r manylebau
5. paratoi'r safle cyn adeiladu strwythurau yn unol â'r manylebau
6. sicrhau bod y gwaith o baratoi'r strwythurau yn cyd-fynd â'r manylebau
7. sicrhau bod unrhyw sylfeini sy'n ofynnol ar gyfer y strwythur yn unol â'r manylebau
8. adeiladu'r strwythur yn unol â'r manylebau
9. gwneud y gwaith mewn ffordd sydd yn atal niwed i'r ardal gyfagos a'r amgylchedd
10. sicrhau nad yw defnyddwyr eraill y safle yn cael eu rhoi mewn perygl oherwydd eich gwaith
11. parhau i gyfathrebu gyda chydweithwyr a phawb sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith neu wedi eu heffeithio ganddo
12. sicrhau bod ymddangosiad a chyflwr y strwythur a adeiladwyd yn bodloni'r manylebau
13. adfer y safle i gyflwr priodol ar ôl cwblhau'r gwaith o adeiladu'r strwythurau
14. gwaredu gwastraff yn ofalus ac yn gywir yn unol â'r cyfarwyddiadau
15. trin a chludo deunyddiau ac offer yn unol â'r cyfarwyddiadau a'r rheoliadau perthnasol
16. gwneud eich gwaith yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg a pholisïau'r cwmni

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. pwysigrwydd archwilio'r safle cyn dechrau'r gwaith o ran peryglon, asesu risg a chyfyngiadau posibl
2. y cyfyngiadau sy'n effeithio ar y gwaith e.e. safleoedd dynodedig; presenoldeb strwythurau rhestredig; bywyd gwyllt; rhywogaethau nad ydynt yn gynhenid; ymledol neu wedi eu gwarchod, ac ati
3. y gwaith paratoi ar gyfer adeiladu'r strwythurau
4. y swyddogaeth y mae'r strwythurau wedi eu dylunio i'w bodloni
5. sut i ddewis, paratoi a defnyddio offer, cyfarpar a pheiriannau, yn cynnwys offer amddiffynnol personol (PPE) lle bo'n ofynnol, sy'n berthnasol i'r manylebau y cytunwyd arnynt
6. sut i ddehongli manylebau adeiladu a phwysigrwydd eu dilyn
7. dulliau paratoi cywir ar gyfer adeiladu strwythurau gwahanol a sut mae'r rhain yn gysylltiedig ag amseru ac amserlennu
8. effaith bosibl eich gwaith ar yr ardal gyfagos a'r amgylchedd a sut i leihau hyn
9. y gwrthdaro posibl rhwng adeiladu strwythurau a gwarchod a diogelu'r amgylchedd naturiol
10. y dulliau o adeiladu'r strwythur a pherthynas hyn â'r defnydd a gynlluniwyd ar ei gyfer
11. cyd-destun y strwythur, a'r ffordd y mae hyn yn berthnasol i'r manylebau
12. sut i ddefnyddio deunyddiau yn gywir wrth adeiladu strwythurau
13. sut i gyfyngu'r risg i ddefnyddwyr eraill y safle wrth adeiladu strwythurau
14. pwysigrwydd parhau i gyfathrebu gyda'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo a sut dylid gwneud hyn
15. y problemau a allai ddigwydd wrth adeiladu a sut dylid ymdrin â hyn
16. sut i drin, cludo a gwaredu gwastraff yn unol â'r cyfarwyddiadau, gofynion cyfreithiol a sefydliadol
17. pwysigrwydd adfer y safle i gyflwr glân a thaclus ar ôl cwblhau'r adeiladu
18. eich cyfrifoldeb yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, codau ymarfer a pholisïau'r cwmni

## Cwmpas/Ystod

A. dehongli'r fanyleb adeiladu mewn perthynas â'r categorïau canlynol:

(i) diogeledd

(ii) ansawdd

(iii) dyluniad

(iv) adeiladu

B. cynnal a chadw'r offer angenrheidiol trwy:

(i) lanhau

(ii) storio

(iii) gwirio ac addasu

C. rheoli'r gwastraff canlynol:

(i) organig

(ii) anorganig

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

Strwythurau: pontydd syml, rhydiau, grisiau, llociau cadw anifeiliaid, siediau, polydwnelau, sgriniau, cuddfannau, biniau compost, planwyr pren, gwelyau uchel, amddiffyniadau coed.

Manylebau: darluniau, amserlenni, datganiadau dull, Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (GGS), canllawiau cynhyrchwyr; gofynion cwsmeriaid; polisïau sefydliadol.

Adeiladu strwythurau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANCS18 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Swyddi Chwaraeon a Ffitrwydd, Coedlannu, Coedyddiaeth a choedwigaeth, Garddwr, Gweithiwr Planhigfa, Tirluniwr, Rhodiwr, Swyddog Cadwraeth, Gweithiwr Ystadau, Rhodiwr Parc, Swyddog Mynediad, Rheolwr Gwirfoddolwyr, Rheolaeth Pysgodfeydd |
| **Cyfres/Set** | Cynhyrchu Cnydau Amaethyddol, Garddwriaeth, Gwaith coed, Cadwraeth Amgylcheddol, Crofftwyr a Thyddynwyr, Dyframaethu |
| **Geiriau Allweddol** | cuddfannau; pontydd; polydwnelau; llociau cadw; sgriniau; parhaol; dros dro |